Archwilio'r gallu i arogli

Trosolwg

Gall promptiau synhwyraidd syml helpu rhieni a gofalwyr i fanteisio ar eiliadau chwaraegar. Ceisiwch dynnu sylw at y synhwyrau drwy fannau a deunyddiau naturiol.



Gweithgareddau

Archwiliwch ardd y feithrinfa gan ddefnyddio eich gallu i arogli. Darparwch ddarnau rhydd naturiol i'w harchwilio ar fat darganfod neu gwahoddwch grwpiau i archwilio eich safle er mwyn dod o hyd i wahanol arogleuon ac yna adrodd yn ôl. Mae'n bosibl y bydd rhai'n hyfryd ac eraill yn fwy annymunol! Darparwch begiau a photiau bach er mwyn i'r grwpiau allu arogli eitemau heb gyffwrdd â nhw. Chwiliwch am rai planhigion sy'n tyfu'n naturiol ar eich safle (garlleg gwyllt, perlysiau) – a gofynnwch i'r grwpiau eu hadnabod wrth eu harogl

Offer

- Mat neu rŷg i'r grŵp ymgasglu arno
- Pegiau a photiau bach
- Perlysiau neu flodau
- Mygydau

Cwestiynau allweddol

A ydych yn hoffi'r arogl?
Sut arogl sydd arno?
Am beth y mae'n eich atgoffa? (Gallai mint fod yn eu hatgoffa am bâst dannedd, a fydd yn eu helpu i greu cysylltiadau â phrofiadau go iawn.)

Deilliannau dysgu

- Lechyd a lles – gwydnwch i brofiadau newydd, ychwanegu cyd-destunau go iawn er mwyn hybu dealltwriaeth.
- Llythrennedd – sgiliau siarad a gwrando a defnyddio iaith ddisgrifiadol.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Ychwanegwch fygydau at eich mat darganfod er mwyn troi'r gweithgaredd yn gêm. A all teuluoedd ddod o hyd i eitem unwaith eto drwy ddefnyddio eu gallu i arogli'n unig?
- Crëwch bersawrau a chymysgeddau drwy gyfuno perlysiau, blodau a glaswelltau. Pa un sydd â'r arogl gorau?